

Hyrwyddo addysg dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal

Holiadur GALIL

Mae'r holiadur hwn yn rhan o adolygiad thematig Estyn ar hyrwyddo addysg dysgwyr sydd â phrofiad o ofal.

Bydd yn cael ei ddefnyddio i gasglu gwybodaeth ar lefel y system ledled Cymru i lywio dadansoddiad thematig ac ymweliadau arolygu. Gellir cyfeirio at ymatebion ar ffurf agregau yn yr adroddiad cyhoeddus.

Amser cwblhau amcangyfrifedig: 15–20 munud.

Gweler ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#)

Arweinyddiaeth a goruchwyliaeth strategol

1. Nodwch i ba awdurdod lleol yr ydych yn gweithio / yn ateb ar ei ran:

- ☐ Blaenau Gwent
- ☐ Pen-y-bont ar Ogwr
- ☐ Caerffili
- ☐ Caerdydd
- ☐ Sir Gaerfyrddin
- ☐ Ceredigion
- ☐ Conwy
- ☐ Sir Ddinbych
- ☐ Sir y Fflint
- ☐ Gwynedd
- ☐ Ynys Môn
- ☐ Merthyr Tudful
- ☐ Sir Fynwy
- ☐ Castell-nedd Port Talbot
- ☐ Casnewydd
- ☐ Sir Benfro
- ☐ Powys
- ☐ Rhondda Cynon Taf
- ☐ Abertawe
- ☐ Torfaen
- ☐ Bro Morgannwg
- ☐ Wrecsam

2. A oes gan yr awdurdod swyddogaeth arweiniol ddynodedig ar gyfer addysg dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal?

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes

3. Os oes, nodwch pwy sy'n dal y rôl hon:

- ☐ Rôl y Cydlynnydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal
- ☐ Pennaeth Ysgol Rithwir
- ☐ Model cyfunol y Cydlynnydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal / Ysgol Rithwir
- ☐ Rôl arall ddynodedig (nodwch):

4. Pa wasanaeth sydd â chyfrifoldeb strategol cyffredinol o fewn yr awdurdod lleol am ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal?

- ☐ Gwasanaeth addysg
- ☐ Gwasanaethau plant
- ☐ Trefniant rhianta ar y cyd / corfforaethol

5. A oes gan yr awdurdod strategaeth neu fframwaith ysgrifenedig ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal (3–16 oed)?

- ☐ Oes - cyhoeddedig
- ☐ Oes - mewnol
- ☐ Nac oes

6. A yw'r awdurdod yn cynnal goruchwyliaeth o fewn systemau addysg dros ddysgwyr y tu hwnt i'r rhai sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd (e.e. wedi eu mabwysiadu, gwarcheidiaeth arbennig, gofal gan berthynas, wedi dychwelyd gartref)?

- ☐ Ydy – yn systematig, fel rhan o drefniadau monitro ffurfiol
- ☐ Ydy – mewn rhai achosion
- ☐ Nac ydy

7. Pa grwpiau eraill o ddysgwyr sy'n cael eu cynnwys o fewn trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer goruchwyllo neu fonitro addysg ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- ☐ Dysgwyr sydd wedi cael eu mabwysiadu o'r sector gofal
- ☐ Dysgwyr sy'n destun gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig
- ☐ Dysgwyr sy'n byw mewn trefniadau gofal gan berthynas
- ☐ Dysgwyr sydd wedi dychwelyd gartref o ofal
- ☐ Dysgwyr sydd wedi cael eu gosod yn yr awdurdod gan awdurdod lleol arall
- ☐ Dysgwyr sydd wedi cael eu gosod y tu allan i'r awdurdod gan yr awdurdod lleol hwn

8. Am ba mor hir y mae goruchwyliaeth yn parhau ar ôl mabwysiadu?

Data a gwerthuso

9. Pa wybodaeth ganlynol am ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael ei holrhain fel mater o drefn neu'i monitro'n ganolog gan yr awdurdod lleol? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- ☐ Presenoldeb
- ☐ Gwaharddiadau
- ☐ Cyrhaeddiad
- ☐ Cynnydd dros gyfnod
- ☐ Symud ysgol
- ☐ Symud lleoliad
- ☐ Statws ADY
- ☐ Cyrchfannau ôl-16 (lle bo'n berthnasol)
- ☐ Dim un o'r uchod
- ☐ Arall (nodwch):

10. A yw'r awdurdod yn dadansoddi tueddiadau neu batrymau dros gyfnod mewn deilliannau ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal (er enghraifft presenoldeb, cynnydd, cyrhaeddiad neu waharddiadau) i lywio cynllunio a gwelliant (e.e. yn ôl math o leoliad, statws ADY neu sefydlogrwydd)?

- ☐ Ydy – yn dadansoddi ac yn adrodd fel mater o drefn
- ☐ Ydy – yn dadansoddi'n achlysurol neu ar gyfer materion penodol
- ☐ Nac ydy
- ☐ Ddim yn siwr

11. Pa mor aml y mae'r awdurdod lleol yn adrodd i aelodau etholedig ar ddeilliannau addysgol dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal?

- ☐ Bob tymor ysgol
- ☐ Dwywaith y flwyddyn
- ☐ Bob blwyddyn
- ☐ Yn llai aml
- ☐ Nid ydym yn adrodd i aelodau etholedig

12. Pa ddeilliannau ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal sydd fel arfer yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau i aelodau etholedig?

- ☐ Presenoldeb
- ☐ Gwaharddiadau
- ☐ Cyrhaeddiad
- ☐ Cynnydd dros gyfnod
- ☐ Symud ysgolion
- ☐ Symud lleoliadau
- ☐ Statws ADY
- ☐ Cyrchfannau ôl-16 (lle bo'n berthnasol)
- ☐ Dim un o'r uchod
- ☐ Arall (nodwch):

13. A yw adroddiadau ar ddeilliannau addysgol dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu rhannu'n gyhoeddus (er enghraifft, trwy bwyllgorau craffu neu adroddiadau cyhoeddus)?

- ☐ Ydyn
- ☐ Nac ydyn

14. Rhowch fanylion

15. A yw parhad addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn cael ei fonitro pan fydd dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn symud lleoliad neu ysgol?

- ☐ Ydy
- ☐ Nac ydy
- ☐ Ddim yn berthnasol

Cynlluniau Addysg Personol a chymorth

16. Ar lefel awdurdod lleol, pwy sydd â phrif gyfrifoldeb am sicrhau ansawdd Cynlluniau Addysg Personol (CAPau)?

- ☐ Cydlynnydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal / Tîm Ysgol Rithwir
- ☐ Gwasanaeth addysg
- ☐ Gwasanaethau plant
- ☐ Cyfrifoldeb ar y cyd (nodwch)
- ☐ Ddim yn berthnasol

17. A yw'r awdurdod yn cynnal archwiliadau neu adolygiadau sicrhau ansawdd o Gynlluniau Addysg Personol (CAPau) ar lefel awdurdod (er enghraifft adolygu eu ffocws ar gynnydd, lles neu gynllunio pontio)?

- ☐ Ydy
- ☐ Nac ydy

18. Pa mor aml y caiff CAPau eu harchwilio neu'u hadolygu ar lefel awdurdod?

- ☐ Bob tymor (neu'n amlach)
- ☐ Dwywaith y flwyddyn
- ☐ Bob blwyddyn
- ☐ Yn llai aml na phob blwyddyn
- ☐ Arall (nodwch):

Arfer sy'n ystyriol o drawma ac yn ymwybodol o ymlyniad

19. Er 2022, a yw'r awdurdod wedi comisiynu neu hyrwyddo hyfforddiant arfer sy'n ystyriol o drawma neu'n ymwybodol o ymlyniad ar gyfer ysgolion?

- ☐ Ydy
- ☐ Nac ydy
- ☐ Ddim yn siwr

20. A yw'r awdurdod yn cynnal cofnodion o ba ysgolion neu UC Dau sydd wedi manteisio ar hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma neu'n ymwybodol o ymlyniad?

- ☐ Ydy
- ☐ Nac ydy
- ☐ Ddim yn siwr

21. Sut mae'r awdurdod yn gwerthuso gweithredu neu effaith yr hyfforddiant hwn?
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- ☐ Monitro presenoldeb yn unig
- ☐ Adborth gan athrawon
- ☐ Adborth gan ddysgwyr
- ☐ Adborth gan rieni a gofalmwr
- ☐ Yn gysylltiedig â hunanwerthuso ysgolion
- ☐ Yn gysylltiedig â data presenoldeb, ymddygiad neu ddeilliannau
- ☐ Dim monitro ffurfiol
- ☐ Arall (nodwch):

Cyfnodau pontio a sefydlogrwydd

22. A oes gan yr awdurdod brotocol ffurfiol i leihau symudiadau ysgol yn ddiangen i ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal?

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes

23. Pan fydd newidiadau lleoliad yn cael eu hystyried a allai effeithio ar addysg, sut caiff y tîm addysg ei gynnwys mewn cynllunio ar gyfer parhad addysgol?

- ☐ Caiff addysg ei chynnwys fel mater o drefn yn gynnar
- ☐ Caiff addysg wybod wedi i benderfyniadau gael eu gwneud
- ☐ Mae ymglymiad addysg yn amrywio fesul achos
- ☐ Ni chaiff addysg ei chynnwys fel mater o drefn

Llais y dysgwr a thegwch

24. Sut mae'r awdurdod yn casglu llais y dysgwr gan ddysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- ☐ Cyfarfodydd CAP
- ☐ Surveys
- ☐ Grwpiau cyfranogi
- ☐ Ddim yn berthnasol
- ☐ Sefydliadau eirioli allanol
- ☐ Dim dull systematig
- ☐ Other (please specify):

25. A yw'r awdurdod yn mynd ati i gasglu adborth gan rieni, gofalwyr neu warcheidwaid dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal am eu profiadau o addysg? (Er enghraifft trwy arolygon, ymgynghori neu ymgysylltiad strwythuredig arall)

- ☐ Ydy
- ☐ Nac ydy
- ☐ Ddim yn siwr

26. Sut caiff yr adborth hwn ei ddefnyddio, yn nodweddiadol? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- ☐ I lywio cynllunio neu wella gwasanaethau
- ☐ Caiff ei adrodd i uwch arweinwyr neu aelodau etholedig
- ☐ Caiff ei rannu ag ysgolion
- ☐ Caiff ei ystyried mewn byrddau rhianta corfforaethol neu grwpiau llywodraethu
- ☐ Ni chaiff ei ddefnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau fel mater o drefn
- ☐ Arall (nodwch):

27. A yw'r awdurdod yn monitro mynediad a gaiff dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal at weithgareddau cyfoethogi, profiadau ehangach neu lwybrau cwricwlwm?

	Ydy – trwy brosesau ffurfiol (e.e. adolygiadau plant sy'n derbyn gofal neu CAPau)	Ydy – yn anffurfiol (e.e. adborth anffurfiol neu drafodaethau am achosion)	Nac ydy
Gweithgareddau cyfoethogi	☐	☐	☐
Profiadau ehangach	☐	☐	☐
Llwybrau cwricwlwm	☐	☐	☐

28. Disgrifiwch yn fras un enghraifft o arfer o fewn eich awdurdod yr ydych yn ystyried ei bod yn hynod effeithiol o ran gwella deilliannau neu brofiadau ar gyfer dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal